



Polisi plant Presenoldeb

Dod i'r ysgol



Miss school:
Miss out.

Sut ydym ni'n gwobrwyo presenoldeb da:

- Pob Dydd Mawrth yn ystod gwasanaeth mae Mrs Davies yn dweud pa ddosbarth oedd a'r presenoldeb gorau wythnos diwethaf.
- Caiff y Dosbarth gyda'r presenoldeb gorau seren ar y siart presenoldeb.
- Ar ddiwedd y tymor mae'r Dosbarth sydd a'r fwyaf o ser yn cael amser chwarae ychwanegol fel gwobr.

Ein oriau ysgol:

- Mae clwb brecwast yn agor am 08:10 ac yn cau am 08:30.
- Mae'r gatiau Ysgol yn agor i flynyddoedd 3-6 am 08:40 ac yn cau am 08:50.
- Mae'r drysau yn agor i'r Meithrin i flynyddoedd 2 am 08:50 -09:00.
- Mae'r Ysgol yn gorffen i'r Meithrin i Flwyddyn 2 am 15:00 (3yp) ac am 15:10 (3:10 yp) am flynyddoedd 3 -6.

Beth yw presenoldeb a pham mae'n bwysig?

- Mae presenoldeb yn golygu dod i'r ysgol.
- Mae presenoldeb yn bwysig oherwydd mae'n eich helpu i ddysgu pethau newydd bob dydd a datblygu eich sgiliau i sicrhau'r gorau i'ch dyfodol.
- Mae e hefyd yn golygu gallwch dreulio amser gyda'ch ffrindiau ac athrawon sydd yn eich helpu i ddysgu a theimlo'n hyderus mewn lle diogel.



Beth os mae eich presenoldeb yn isel?

- Mae'n iawn bod yn sâl neu gael apwyntiad sy'n golygu na allwch fynd i'r ysgol ond os ydych yn treulio llawer o amser i ffwrdd yna rydych chi'n colli allan ar ddysgu pwysig.
- Os ydych chi'n mynychu'r ysgol am lai na 95% o'r amser, yna bydd Mrs Davies yn monitro eich presenoldeb.
- Efallai y bydd eich oedolion gartref yn derbyn galwad ffôn neu lythyr i'w hatgoffa o'ch sgôr presenoldeb.
- Os nad yw eich presenoldeb yn gwella, efallai y bydd eich oedolion yn dod i mewn i gael sgwrs gyda Mrs Davies am gefnogaeth.
- Mae'n gyfraith bod yn rhaid i chi fynychu'r ysgol yn rheolaidd.
- Os ydych chi'n sâl neu'n methu mynychu'r ysgol am reswm gwahanol, yna rhaid i'ch oedolion ffonio'r ysgol i roi gwybod i ni pam rydych chi'n absennol.
- Mae Miss Jenkins yn gwrandao ar y negeseuon ac os nad ydym wedi derbyn neges yna bydd hi'n ffonio i ddarganfod pam nad ydych yn yr ysgol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod pawb yn ddiogel.
- Y rhif y dylai eich oedolyn ffonio i ddweud wrth yr ysgol eich bod chi'n mynd i fod yn absennol yw 01269 593398.

Ydy presenoldeb da yn bwysig?

Ydy, oherwydd gallwch colli allan ar llawer o ddysgu a datblygiad personol pan and ydych yn yr ysgol :

Os ydych yn colli...	Mae hyn yn golygu...	Sydd yn....	A dros 13 o flynyddoedd ...
Hanner diwrnod yr wythnos	20 diwrnod y flwyddyn	4 wythnos ysgol y flwyddyn	1 ½ blwyddyn
Diwrnod yr wythnos	40 diwrnod yr flwyddyn	8 wythnos ysgol y flwyddyn	2 ½ blwyddyn
2 diwrnod yr wythnos	80 diwrnod y flwyddyn	16 wythnos ysgol y flwyddyn	Dros 5 mlynedd
3 diwrnod yr wythnos	120 diwrnod y flwyddyn	24 wythnos y flwyddyn	Bron 8 mlynedd

Ydy bod ar amser yn bwysig?

Ydy! Mae dysgu i fod yn brydlon yn sgil pwysig. Mae bod 10 munud yn hwyr weithiau yn adio i fyny:

Os ydych yn colli...	Mae hyn yn golygu...	Sydd yn....	A dros 13 o flynyddoedd ...
10 munud pob diwrnod	50 munud yr wythnos	Bron wythnos a hanner pob blwyddyn	Bron hanner blwyddyn
20 munud pob diwrnod	1 awr 40 munud yr wythnos	Dros 2 wythnos a ½ pob blwyddyn	Bron blwyddyn
30 munud pob diwrnod	½ diwrnod pob wythnos	4 wythnos y flwyddyn	Bron blwyddyn a hanner
1 awr pob diwrnod	1 diwrnod yr wythnos	8 wythnos y flwyddyn	2 flwyddyn a hanner

Cafodd y polisi yma eu ddatblygu gan y cynghorau Parchu Presenoldeb a Lleisiau Lles.